


1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Troseddau Ffermio a Throseddau Gwledig yng Nghymru:

Trydydd Adroddiad (Mehefin 2022)

Heddlu Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

103752-02.20

# Cydnabyddiaethau

**Cefnogwyd yr adroddiad hwn gan gyllid gan Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Hoffai'r awduron hefyd ddiolch i Heddlu Dyfed-Powys ac yn enwedig i'r Tîm/Fforwm Troseddau Gwledig a Rob Taylor o Dîm Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru. Rydym yn ddiolchgar i'n cydweithwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan gynnwys Alexandra Brookes am gymorth gydag arolwg ar-lein, Jonathan Fry am gyfieithu ac i Dafydd Jones o'r Stiwdio Ddylunio am gymorth wrth lunio'r adroddiad hwn.**

## Awduron a Chysylltiadau




- **Ebost:** ggn@aber.ac.uk
- **Swyddfa:** 11.33, Adeilad 5 Penbryn
- **Ffôn:** +44 (0) 1970 621666
- **Trydar:** garethnorris1


Mae Dr Gareth Norris yn uwch ddarlithydd yn yr Adran Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac wedi cael ei gyflogi yno ers 2006. Mae ei brif feysydd ymchwil ac addysgu yn canolbwyntio ar seicoleg fforensig a throseddegol, yn enwedig barn a gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cyfreithiol. Ochr yn ochr â'i waith ym maes troseddau gwledig, mae wedi cynnal gwerthusiadau ar gyfer y Swyddfa Gartref ar Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol a chyda Cyfiawnder Ieuenctid wrth ddatblygu adnoddau asesu risg.





- **Ebost:** dmm@aber.ac.uk
- **Swyddfa:** C54, Adeilad Hugh Owen
- **Ffôn:** +44 (0) 1970 622513
- **Trydar:** wyn_wm


Mae Dr Wyn Morris yn uwch ddarlithydd yn Ysgol Fusnes Aberystwyth. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth yn 2001 gyda gradd BSc mewn Rheoli Adnoddau Gwledig, gan arbenigo mewn busnes ac economeg. Aeth ei yrfa ag ef i'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw lle bu'n gweithio fel Cydlynydd Ardystio ac Asesu tra'n astudio ar gyfer MSc Econ mewn Entrepreneuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymunodd Wyn â staff Prifysgol Aberystwyth fel Swyddog Ymchwilio gyda'r Arolwg Busnes Fferm yn 2003, cyn ymgymryd â swydd yn yr Ysgol Fusnes a Rheolaeth yn 2010 ac amddiffyn yn llwyddiannus ei PhD o dan y teitl: MABWYSIADU TECHNOLEG, ENTREPRENEURIAETH AC EFFEITHLONRWYDD MEWN BUSNESAU AMAETHYDDOL:Achos Ffermwyr Defaid yr Ucheldir yng Nghymru. Mae ei brif feysydd ymchwil ac addysgu yn ymwneud â rheoli, strategaeth a gweithrediadau gan ganolbwyntio ar entrepreneuriaeth wledig.



# Crynodeb Gweithredol

**Yr adroddiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres bob yn ail flwyddyn o werthusiadau o'r mentrau plismona a throseddau gwledig a ddatblygwyd ar draws Dyfed-Powys; yn ogystal â'r arholiadau rhanbarthol a gyhoeddwyd yn 2017 a 2019, am y tro cyntaf eleni cafodd yr arolwg ei ymestyn ar draws y pedwar llu heddlu yng Nghymru. Ynghyd â'r ffocws ehangach hwn y tu hwnt i Ddyfed-Powys, roedd yr arolwg presennol hefyd yn targedu trigolion gwledig yn fwy cyffredinol – ochr yn ochr â'r gymuned ffermio – i ganfod eu barn ar blismona, troseddu ac effeithiau ehangach Covid a Brexit. Cwblhaodd cyfanswm o 150 o ffermwyr (60%) a phreswylwyr gwledig (40%) yr arolwg a hyrwyddwyd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021 ac yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ym mis Rhagfyr 2021.**




Yn gyffredinol, roedd arwyddion cadarnhaol bod y Strategaeth Troseddau Gwledig ar gyfer Dyfed-Powys a mentrau tebyg mewn heddluoedd cyfagos yn cael effaith ar leihau ac ymchwilio i droseddau; ac mae canfyddiadau o'r heddlu yn parhau i ddilyn llwybr cadarnhaol.

Er gwaethaf amgylchiadau heriol yn ystod y 24 mis diwethaf oherwydd pandemig Covid-19, ystyriwyd bod gwaith yr heddlu yn cymryd troseddau fferm a gwledig yn fwy difrifol; mae materion yn parhau ar draws pob heddlu o ran canfyddiadau negyddol ynghylch cyfraddau erlyn gwirioneddol ac yn fwy cyffredinol wrth sefydlu bod trosedd wedi digwydd. Ceir amrywiadau rhanbarthol amlwg a chyfraddau ymateb i arolygon sy'n gwneud y casgliadau hyn yn deilwng o gael eu harchwilio'n fanylach.

# Cefndir

**Mae diddordeb cynyddol mewn troseddau gwledig a'r rhyngweithio â'r cymunedau gwledig yn fwy cyffredinol, a phwysigrwydd hynny. Mae'r pandemig byd-eang a Brexit wedi tynnu sylw amlwg at broblemau sydd wedi taflu goleuni ar y ffiniau rhwng amgylcheddau gwledig a threfol; mae nodweddion fel diogelwch bwyd, cadwyni cyflenwi a thwristiaeth, yn tynnu sylw at sut mae'n rhaid i'r lleoliadau hyn gydfodoli. Daeth cefn gwlad fel man hamdden yn ystod cyfnodau clo Covid â llawer o bobl i gysylltiad â'r heddlu gwledig a chymunedau gwledig, er enghraifft, gyda nifer fawr yn ymweld â mannau prydferth ledled Cymru a pherchnogion ail gartrefi yn ymweld â phreswylfeydd o wledydd eraill yn ystod y cyfnodau symud cyfyngedig.**

Mae'r llwybr tuag i fyny o ran buddsoddi mewn personél yr heddlu, isadeiledd a mentrau polisi yn amlwg wedi effeithio ar y ffordd y caiff troseddau gwledig eu hysbysu a'r ymateb iddynt. Mewn arolygon blaenorol, roedd adran benodol i werthuso Strategaeth Troseddau Gwledig Heddlu Dyfed-Powys (HDP) ac ymyriadau a gyflwynwyd gan yr heddlu. Yn y gwerthusiad blaenorol o 2019, roedd ymatebion cadarnhaol gan ddwy ran o dair o drigolion HDP a oedd yn teimlo bod troseddau fferm a throseddau gwledig yn cael eu cymryd yn fwy o ddifrif ers cyflwyno'r strategaeth troseddau gwledig. Yn ogystal, dywedodd 54% fod y swyddogion gwledig penodedig wedi cynyddu eu hymddiriedaeth yn yr heddlu a dywedodd 66% o'r ymatebwyr eu bod yn fwy tebygol o riportio trosedd oherwydd y swyddogion gwledig. Argymhellwyd bod presenoldeb cynyddol y timau plismona troseddau gwledig yn agwedd allweddol ar lwyddiant tymor byr y strategaeth ac fe'i hadlewyrchir yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill ledled Cymru a'r DU.

Mae llawer o waith blaenorol sy'n dadlau bod yr hyn a ystyrir yn droseddau fferm a sut y caiff ei fesur yn arwain at broblemau systemig o ran plismona gweithredol (Barclay, 2016). Mae troseddau gwledig – sy'n gallu cwmpasu troseddau a throseddau busnes fferm a gyflawnir ar dir ac adeiladau amaethyddol – yn gysyniad ehangach, ond mae eangder y gweithgareddau hyn, sy'n gallu cynnwys tipio anghyfreithlon, hela anghyfreithlon, difrod troseddol, a thresmasu, yn golygu bod amcangyfrifon o faint o droseddau a gyflawnwyd mewn ardaloedd gwledig yn amwys i raddau helaeth (Laub, 1983; Donnermeyer a Barclay, 2005). Diben yr ymchwil hwn yw cyfrannu at y dadleuon ehangach hyn ar yr effeithiau a'r ymatebion i droseddau fferm a gwledig. Oherwydd natur gynyddol gymhleth troseddau lleol, cenedlaethol a thrawsffiniol, mae'r arolwg am y tro cyntaf yn ceisio cyffwrdd â rhai materion ehangach, gan gynnwys troseddau bywyd gwyllt a Brexit, ledled Cymru gyfan.







# Methodoleg yr Arolwg a'r Sampl

**Seiliwyd yr holiadur ar offerynnau a ddefnyddiwyd yn flaenorol (yn bennaf Arolygon Troseddau Gwledig Dyfed-Powys o 2017/19), sydd wedi dangos eu bod yn arfau priodol i werthuso effaith polisi (Norris a Morris, 2019). Yn flaenorol, roedd yr arolygon wedi cynnwys nifer o fesurau penodol yn ymwneud â throseddau cyffredinol a phlismona o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW), ochr yn ochr â mesurau cyfalaf cymdeithasol o Arolwg Cymdeithasol Ewrop ac Arolwg Dinasyddiaeth y DU.**



Fel yn y blynyddoedd blaenorol, datblygwyd yr holiadur mewn ymgynghoriad â thimau'r heddlu gwledig i gasglu agweddau polisi ac agweddau gweithredol ar eu gwaith yn ddigonol mewn cyd-destunau gwledig. Yn ogystal, cefnogwyd ymgynghoriad agos gan Gydlynydd Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru Llywodraeth Cymru, i ehangu'r cylch gwaith o ran daearyddiaeth a'r math o drosedd (e.e. troseddau amgylcheddol).

Er bod yr astudiaethau blaenorol yn cynnwys troseddau gwledig ehangach, roeddent yn canolbwyntio yn bennaf ar ffermwyr; roedd arolwg 2021 am y tro cyntaf hefyd yn targedu trigolion gwledig er mwyn ehangu'r ffocws ar faterion ehangach yn y poblogaethau hyn, gan gydnabod nad ydynt o reidrwydd yn endidau ar wahân neu'n endidau gwahanol. Er bod yr astudiaeth yn canolbwyntio ar droseddau gwledig yn fwy cyffredinol, atebwyd yr arolwg yn bennaf gan ffermwyr (60:40), gyda thua 40% o'r rhain o fentrau cig eidion a defaid a 34% arall yn ffermwyr defaid yn unig ac mae'n cynrychioli mentrau bugeiliol yr ucheldir yn gyffredinol ledled Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Tachwedd 2021 a dechrau mis Ionawr 2022, yn bennaf drwy blatfform ar-lein a hysbysebwyd drwy gyfryngau cymdeithasol yr Heddluoedd ac mewn sioeau a digwyddiadau amaethyddol a fynychwyd gan y Cydlynydd Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt.


Caiff y data ei ddadansoddi gan gyfeirio at ddau arolwg HDP 2017/19 blaenorol mewn mannau er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r ffigurau. Mae dadansoddiad ar wahân ar gyfer HDP ar draws tri phwynt data'r arolwg, ond oherwydd y sampl gymharol fach yn gyffredinol a chyfraddau ymateb gwahanol, nid yw hyn wedi'i ddaduno yn ôl rhanbarthau heddluoedd unigol.

# Canfyddiadau Allweddol

**Cyfanswm nifer yr ymatebwyr a brofodd ddigwyddiad troseddol yn eu heiddo oedd 55% - amcangyfrif ychydig yn fwy i'r 51% i'r ffigurau hynny ar gyfer HDP a adroddwyd yn yr arolygon blaenorol yn 2017a19. Er bod y ffigur hwn yn awgrymu cynnydd bach yn gyffredinol ledled Cymru, roedd y ffigurau ar gyfer HDP yn debyg i adroddiadau blaenorol o tua 50%. Yn amlwg, dydy'r ffigurau hyn ddim yn awgrymu bod hanner o bob eiddo wedi profi trosedd; ond mai amcangyfrif ydyw dros amser o brofiadau o ddigwyddiadau o droseddau gan nad yw pob trosedd yn cael ei riportio a/neu'i recordio mewn ystadegau swyddogol.**

Fel yr adroddwyd yn yr arolygon blaenorol, colledion peiriannau fferm oedd y categori troseddu mwyaf (52%), ac yna dwyn da byw (12%), a'r ddau yn debyg i ffigurau cenedlaethol gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2020).

Riportiwyd tua 80% o'r digwyddiadau hyn i'r heddlu. Fodd bynnag, gellir sgiwio'r ffordd yr adroddir am droseddau, yn dibynnu a oeddent yn golledion wedi'u hyswirio ai peidio.



**Canran yn ôl y 'Math o Drosedd'**

- Dwyn da byw
- Dwyn Peiriannau
- Difrod i eiddo
- Ymosodiadau gan gŵn
- Arall

## Canfyddiadau'r Heddlu

- Ydych chi'n teimlo bod troseddau ar ffermydd ar gynnydd? **Yn gyffredinol 66% YDW**
- Oeddech chi'n hapus â'r ffordd yr aeth yr heddlu ati i ymdrin â'r digwyddiad? **46% OEDDWN**
- Arweiniodd y digwyddiad at gollfarn? **DO 7%**
- Ydy'ch canfyddiadau chi o droseddau gwledig wedi newid oherwydd Brexit **(77% Na)** a Covid **(93% Na)**
- Roedd tua dwy ran allan o dair o'r farn bod troseddau fferm ar gynnydd

Ar gyfer 2021 ledled Cymru, roedd ymateb cadarnhaol o 47% yn teimlo bod troseddau fferm a throseddau gwledig yn cael eu cymryd yn fwy o ddifrif gyda 51% yn nodi bod y swyddogion gwledig penodedig wedi cynyddu eu hymddiriedaeth yn yr heddlu.

*"Mae nifer cynyddol y preswylwyr o'r DU sydd ar wyliau yng nghefn gwlad y DU wedi codi ymwybyddiaeth, ond maen nhw wedi bod yn gyfrifol am fwy o sylw yn y cyfryngau i droseddau gwledig hefyd."*

**[Preswylydd, Dyfed-Powys]**

Yn yr un modd, roedd 51% o'r ymatebwyr yn awgrymu bod y cyfryngau cymdeithasol yn arbennig wedi cynyddu eu tebygolrwydd o riportio; cydnabuwyd bod defnyddio Twitter a rhwydweithiau rhithwir cysylltiedig yn ffactor allweddol wrth ddatblygu ymwybyddiaeth, nid yn unig o weithgarwch troseddol, ond hefyd o adnoddau a chymorth (yn enwedig y swyddogion troseddau gwledig). Awgrymodd rhai sylwadau a ddaeth gyda'r ymatebion i'r arolwg bod rhai rhwydweithiau a oedd yn bodoli eisoes wedi eu tocio neu wedi dod i ben yn gyfan gwbl oherwydd y pandemig, a bod y cyfryngau cymdeithasol wedi llenwi'r gwagle hynny i raddau.

*"Dydy'r boblogaeth wledig ddim wedi bod yn cymdeithasu yn ystod pandemig Covid-19. O ganlyniad, mae'r rhwydwaith arferol wedi torri i lawr, ac felly mae hi wedi bod yn amhosib rhannu gwybodaeth am droseddau gwledig ac am arferion/dulliau gorau ac adnoddau."*

**[Ffermwr, De Cymru]**

**Yn gyffredinol, nodwyd chwe maes allweddol yn y data sy'n crynhoi'r canfyddiadau o ardaloedd gwledig a ffermio ledled Cymru:**

- Bod rhywfaint o bryder ynghylch yr amrywioldeb canfyddedig yn amseroedd ymateb yr heddlu;
- Bod rhai arwyddion calonogol bod y cyhoedd yn cymryd rhagofalon i atal troseddu;
- Pryderon posibl nad yw dioddefwyr yn clywed am ganlyniadau troseddau a gofnodwyd;
- Ei bod yn ymddangos bod diffyg erlyniadau yn parhau;
- Bod cefnogaeth ysgubol i Dimau Troseddau Gwledig yn gyffredinol;
- Dealltwriaeth bod adnoddau'r heddlu yn cael eu gwasgu a bod amgylchiadau heriol.



# Troseddau gwledig ledled Cymru

**Yn gyffredinol, roedd boddhad eang gyda'r heddlu a'u hymatebion i droseddu. Roedd materion yn ymwneud â'r ymchwiliad, casglu tystiolaeth a'r system gyfreithiol ehangach yn fater allweddol, gyda 78% yn nodi nad oedd y digwyddiad wedi arwain at euogfarn.**


*"Am eu bod nhw'n teimlo y byddai yswiriant y fferm yn talu am yr eitem, doedd dim ymdrech wedi'i gwneud i ddod o hyd i'r eitem neu ymchwilio i'r mater yn llawn."*
**[Ffermwr, Gogledd Cymru]**

Mae'n bosibl bod y pandemig wedi cael mwy o effaith ar yr ymchwiliad ac ar erlyn troseddwyr, gan amharu ar lawer o waith y llysoedd a gwasanaethau ategol.

*"Dydy cymunedau ffermio ddim yn cael gwybod am lwyddiannau o safbwynt arestio unigolion. Dylai'r undebau amaeth dderbyn adroddiadau ar berfformiad i'w rhannu gyda'u haelodau."*
**[Ffermwr, Gwent]**

*"Mwy o ddefnydd o rwydweithiau'r cyfryngau cymdeithasol."*
**[Ffermwr, Dyfed-Powys]**

- Boddhad â'r heddlu **56%**
- Cynyddu boddhad mewn buddsoddi mewn technoleg **50%**
- Adroddwyd am ymosodiadau gan gŵn gan dros **30%** o'r ymatebwyr ac yn drosedd sy'n cynyddu'n fawr
- Yr oedd dros ddwy ran o dair o ffermwyr wedi buddsoddi mewn rhagofalon atal troseddu




Ymchwiliwyd i faterion ehangach o ran mathau penodol o droseddau. Yn gyffredinol, roedd tua hanner yr holl ymatebwyr o'r farn bod beiciau modur a beiciau cwad a oedd yn cael eu gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd ar gynnydd, ond roedd y ffigurau hyn yn dangos rhai amrywiadau rhanbarthol.

*"Mae gyrru beiciau modur/cwad oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn rhemp yn yr ardal hon. Mae'n amhosib plismona'r drosedd am nad yw cerbydau cyfreithlon yn gallu cyrraedd y mannau hyn, ac mae'n hawdd dianc dros gefn gwlad agored."*
**[Preswylydd, Dyfed-Powys]**

Ystyriwyd bod mynd i'r afael â materion eraill fel troseddau bywyd gwyllt ychydig yn llai pwysig, gyda thua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn amcangyfrif bod hyn naill ai wedi gostwng neu wedi aros yr un fath Fodd bynnag, yn ôl tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr gwelwyd bod tipio anghyfreithlon – gwaredu gwastraff cartref a masnachol yn anghyfreithlon – wedi cynyddu.

*"Mae tipio anghyfreithlon wedi cynyddu ar ôl i gynghorau gyflwyno systemau apwyntiad."*
**[Preswylydd, De Cymru]**

Adroddwyd hefyd am faterion eraill fel gwersylloedd anghyfreithlon, ymosodiadau gan gŵn a difrod troseddol/tresmasu.



# Dadansoddiad o Droseddau Gwledig yn Nyfed-Powys 2017-2021

**Cafodd y trydydd arolwg ei ymestyn ledled Cymru am y tro cyntaf, ond mae dadgyfuno'r data ar gyfer HDP yn caniatáu rhywfaint o olrhain ymatebion dros amser a deall sut mae digwyddiadau diweddar, gan gynnwys Brexit a'r pandemig, wedi effeithio ar ganfyddiadau o droseddau a'r heddlu.**


- Ydych chi'n teimlo bod troseddau ar ffermydd ar gynnydd: **62%** **(98% in 2019)**
- Roedd boddhad â'r heddlu yn **60%** **(i fyny o 47% yn 2017 a 52% yn 2019)**

Yn 2017, cafodd tua 91% o'r troseddau a brofwyd eu riportio i'r heddlu, ond gostyngodd hyn i tua 85% yn 2019. Roedd y ffigur ar gyfer 2021 oddeutu 60% ac mae digwyddiadau diweddar yn ddi-os wedi rhoi straen ar adnoddau'r heddlu:

*"Rhaid aros yn hir am ymweliad yn aml oherwydd y pellter a'r prinder swyddogion."*
**[Ffermwr, Dyfed-Powys]**

Gallai'r gostyngiad mewn riportio hefyd adlewyrchu newid yn y mathau o droseddau (h.y. ymddygiad gwrthgymdeithasol mwy cyffredinol, megis beiciau cwad) gan fod y categorïau troseddau mawr (h.y. dwyn peiriannau a da byw) wedi aros yn gyson.

Fodd bynnag, roedd boddhad uwch na'r cyfartaledd o ran riportio am droseddau, gyda 59% o ymatebwyr a oedd wedi riportio troseddau yn nodi eu bod yn hapus â'r ffordd yr oedd yr heddlu wedi delio â'r digwyddiad, i fyny o 55% yn ôl yn 2017 a dim ond ychydig yn llai na 2019 (60%). Felly, fel gyda blynyddoedd blaenorol, er bod llai o droseddau'n cael eu riportio, roedd y ffordd yr oedd yr heddlu wedi delio â'r digwyddiadau hynny a oedd wedi eu riportio, unwaith eto, yn gadarnhaol.




*"Mae'r swyddog cymunedol wedi meithrin perthynas dda yn yr ardal."*
**[Preswylydd, Dyfed-Powys]**

Y prif ganlyniadau negyddol o fesur ar gyfer rhanbarth Dyfed-Powys – ac yn gyffredin ar draws ardaloedd eraill a arolygwyd hefyd – oedd y canfyddiad o ddiffyg gweithredu o ran erlyniadau:

*"Ddim yn ymwybodol o unrhyw ganlyniad, dim byd wedi'i gyhoeddi."*
**[Preswylydd, Dyfed-Powys]**

Nododd bron pob ymatebydd a oedd wedi riportio trosedd nad oeddent yn ymwybodol o ganlyniadau eu hachos; fodd bynnag, nodwyd bod y cyfathrebu a'r ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol yn elfen gadarnhaol amlwg o'r llu yn gyffredinol.

# Argymhellion

**Yn ystod y ddwy flynedd ers cynnal yr arolwg blaenorol yn Nyfed-Powys, bu rhai newidiadau sylweddol yn y tirlun plismona, yn fwyaf arwyddocaol yn berthnasol i Brexit a phandemig Covid.**

*"Mewn ardaloedd sydd â thîm troseddau gwledig penodedig, mae'n ymddangos bod y mater yn cael ei gymryd yn fwy o ddifrif. "*
**[Ffermwr, Dyfed-Powys]**

Ledled Cymru, mae'n ymddangos bod tueddiadau tebyg, er bod rhai amrywiadau rhanbarthol yn bodoli yn ddi-os, ac mae'r mathau o droseddu a throseddwyr yn wahanol, er enghraifft, yn sgil agosrwydd at gytrefi mwy a'r defnydd o dir.

Er gwaethaf rhai ffigurau cadarnhaol mewn perthynas â'r modd y mae'r buddsoddiad mewn troseddau gwledig wedi effeithio ar hyder yn yr heddlu, mae pryder parhaus o hyd ynghylch y canfyddiad o ddiffyg erlyniadau.

Mae'r llenyddiaeth ar droseddau gwledig yn gyffredinol yn cefnogi'r rhagdybiaeth yma ac mae cymhlethdodau ymchwilio ac erlyn y mathau hyn o droseddu wedi'u dogfennu'n dda (Gilling a Pierpoint. 1999). Mae buddsoddi mewn technoleg atal a chanfod troseddau yn amlwg yn un ffordd o fynd i'r afael â'r diffygion hyn, er, yn y pen draw, yn cynyddu costau i'r defnyddiwr terfynol.

*"Yn syml iawn, does dim digon o swyddogion heddlu nac adnoddau i fynd i'r afael â throseddau mewn ardaloedd anghysbell."*
**[Ffermwr, Gwent]**

*"Gellid gwneud mwy gyda'r adnoddau presennol. Dydy dweud bod eu cyllidebau'n gyfyngedig ddim yn ddigon da. Rhaid croesawu technoleg ac arwain y ffordd."*
**[Preswylydd Gogledd Cymru]**

Mae sylwadau ac argymhellion ymatebwyr yr arolwg yn cynnwys:

- Yr angen am fwy o fuddsoddiad mewn technoleg atal troseddu, gan yr heddlu a ffermwyr
- Swyddogion troseddau gwledig oedd yr agwedd fwyaf uchel eu parch o ran y mentrau plismona gwledig
- Anfodlonrwydd am gyfraddau canfod ac erlyn
- Targedu tueddiadau troseddau penodol, megis gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd, ymosodiadau gan gŵn a thipio anghyfreithlon
- Mwy o ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth a riportio, a rhwydweithiau ehangach
- Meithrin ymwybyddiaeth o effaith troseddau gwledig ar gymunedau ac ymatebion wedi'u teilwra



# Cyfeiriadau a Ffynonellau


## Cyhoeddiadau Blaenorol:

- Norris, G., & Morris, W. (2019). Second report to Dyfed-Powys Police – *Farm and Rural Crime. December, 2019*

- Morris, W., Norris, G., & Dowell, D. (2020). The business of farm crime: evaluating trust in the police and reporting of offences. *Crime Prevention and Community Safety*, 22(1), 17-32. **https://doi.org/10.1057/s41300-019-00083-5**

- Morris, W., Norris, G., and Dowell, D. (2017). Final report to Dyfed-Powys Police – Farm and Rural Crime. December, 2017. **https://wordpress.aber.ac.uk/ggn/files/2018/01/DPP-Rural-Crime-Report-Submitted.pdf.**

## Cyfeiriadau:

- DPP, (2020). Cow DNA used to secure criminal prosecution. **https://www.dyfed-powys.police.uk/en/newsroom/press-releases/cow-dna-used-to-secure-criminal-prosecution/**

- Barclay, E. 2016. *Farm victimisation. The Routledge international handbook of rural criminology, Vol. 107.*

- Baumer, E., and J. Lauritsen. 2010. Reporting crime to the police, 1973–2005; a multivariate analysis of long-term trends in the National Crime Survey (NCS) and National Victimization Survey (NCVS). *Criminology* 48(1): 131–185.

- Coombes, M., C. Wong, M. Charlton, and D. Atkins. 1994. Crime risk in urban and rural neighbourhoods: An experimental analysis of insurance data. *Environment and Planning B: Planning and Design* 21: 489–504.

- Donnermeyer, J.F., and E. Barclay. 2005. The policing of farm crime. *Police Practice and Research* 6(1): 3–17.

- Gilling, D., and H. Pierpoint. 1999. Crime prevention in rural areas. In *Crime and conflict in the countryside*, ed. G. Dingwall and S. Moody. Cardiff: University of Wales Press.

- Laub, J.H. 1983. Patterns of offending in urban and rural areas. *Journal of Criminal Justice* 11: 129–142.

- National Farmers Union. 2019. *NFU Rural Crime Report*. **https://www.nfumutual.co.uk/news-and-stories/rural-crime-report-2019/**

- Office for National Statistics. 2015. *Crime survey for England and Wales, 2013–2014*. 2nd Edition. UK Data Service. SN:7619, **https://doi.org/10.5255/UKDA-SN-7619-2**